# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

## COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 10fed Mehefin 2025 AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.

1. **Presennol** - Siân Dafydd (cad), Gareth Jones, Nigel Williams - Talysarn Dafydd Thomas - Nebo, Barry Bracegirdle, Ceri Owen- Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni,. Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** – Justin Davies, Judith Humphreys, Erfyl Wiliams - Penygroes, Harry Owen – Talysarn, Gerallt Hughes - Nantlle

2. **Gair am y diweddar OP Huws** - fel cyngor cymuned estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r diweddar OP Huws a chymerwyd y cyfle hwn i ddiolch i OP am ei waith a'r cyfraniad i ardal a phobol Dyffryn Nantlle. Bydd y cyngor yn trafod mewn amser i wneud rhywbeth er cof amdano. Diolchwyd i Gwyndaf a Dafydd am eu geiriau caredig.

3. **Datgan buddiant** - pwynt 11 Siân Dafydd - Ceisiadau cynllunio.

4. **Cofnodion cyfarfod 13 Mai 2025** - angen cywiro ym mhwynt o dan Nebo mai wal ar y ffordd rhwng Penchwarel a Ffordd Nebo sydd wedi disgyn ac angen sylw. Yn dilyn gwneud y diwygiad hwn cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** - **llwybr rhif 13** wedi cael ei dorri am y tro cyntaf ers blynyddoedd ac adroddodd y contractwyr y buasai yn well disgwyl tan yr Hydref i dorri'r coed celyn yn y mynwentydd ac o gwmpas**.** **Arwydd goryrru Nantlle** - trafodwyd y prisiau oedd wedi eu derbyn a chynigwyd ac eiliwyd ar bris a gofyn i'r clerc ei archebu. **Sedd Wag Penygroes** - dal heb dderbyn enw ar gyfer y sedd wag hon. Cynnig i'w ail-hysbysebu i weld beth ddaw. **ADRA a Cwtin** - roedd y clerc wedi cysylltu ag ADRA i ofyn sut oedd pethau wedi mynd gyda'r cwrs ar gae Cwtin ac adroddwyd fod popeth wedi mynd yn dda a diolch am gael defnydd o'r tir.

6. **Adroddiadau cyfarfodydd yn ystod y mis - 3 Mehefin - Trafod CCTV Penygroes** - adroddwyd i bawb beth oedd wedi ei drafod yn y cyfarfod hwn a sut oedd meddwl symud ymlaen. Llawer o opsiynau posib ond maent i gyd yn dod i lawr i gost. Cynigiodd yr heddlu i redeg asesiad a gweld wedyn pa system fuasai orau. Disgwyl i glywed nôl gan yr heddlu ac yna cael cyfarfod arall gan obeithio cael symud ymlaen â'r cynllun.

7. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Adroddwyd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn ym mis Ionawr 2026. Diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei adroddiad a'i waith parhaol.

8. **Materion Pentrefi** - **Talysarn -** cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn Nhalysarn bod rhywun wedi bod yn dwyn oddi ar fedd teuluol yn Fynwent Macpela. Yn anffodus nid oes dim mae'r Cyngor Cymuned yn medru ei wneud gan fod pethau yn cael eu gadael ar fedd ar risg y rhai sy'n eu rhoi yno. Ffordd Hyfrydle'r tarmac angen sylw. Dŵr yn llifo tu allan i'r ysgol. Dŵr Cymru wedi bod allan ond heb wneud dim pellach. Rhoddwyd gwahoddiad i bawb i ddiwrnod swyddogol Gardd Nant dydd Sadwrn 15 Mehefin. **Llanllyfni -** cwynion bod pobl ifanc ar gefn beiciau modur sgramblo yn gyrru fyny Lôn Ddŵr a dim yn gwisgo helmed ayyb sydd yn beryglus iddynt hwy ac i ddefnyddwyr eraill y ffordd - Cyng. P Thomas am gael gair ar heddlu am hyn. **Penygroes -** Palmentydd yn Nhrem Yr Wyddfa angen sylw gan eu bod yn beryglus. Lampau strydoedd ddim yn gweithio ym Mhenygroes ac angen eu trwsio. Lôn Capel Bethel yn dyllog ac angen sylw. Arwydd plant yn croesi yn Ffordd y Sir wedi fadio ac angen ei adnewyddu. Croesfan ar waelod Ffordd Y Brenin - y marc coch wedi gwisgo ac angen ei ail-wneud. Arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod yn Co-op ar ôl iddynt fod yn gwneud gwaith yno. **Nebo -** adroddwyd bod y Pwyllgor Ardal am ofyn i Gyngor Gwynedd i gael rhoi cofeb i OP Huws yn y pentref. Cynigwyd i'r Cyngor Cymuned rhoi cyfraniad at hyn. Cynnig hefyd pan fydd y wefan newydd yn fyw yna cael tudalen am OP arni.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - Pawb wedi derbyn copi o'r daenlen i edrych drosti. Dim byd yn codi ond adroddodd y clerc bod y presept wedi mynd fewn i'r cyfrif ers gwneud y daenlen.. **Archwilwyr Mewnol -** penderfynwyd yn unfrydol i benodi Cyngor Gwynedd i wneud archwiliad mewnol y cyngor cymuned gan eu bod wedi ei wneud yn flynyddol er peth
Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ________________________________ Dyddiad - ___________

amser bellach. **Lwfans cynghorwyr** - rhai angen dod a ffurflenni yn nôl i gyfarfod mis Gorffennaf er mwyn i'r clerc gael gwneud y taliadau. **Ariannu Clwb Ieuenctid am 2025/26 -** adroddwyd buasai'r gost o redeg y clwb fel y mae wedi bod yn costio £8698. £8000 wedi ei glustnodi ond penderfynwyd symud y gweddill o'r arian sydd yng ngholofn arall. Trafodwyd, cynigwyd ac eiliwyd i ariannu'r clwb am y flwyddyn eto gan fod cynifer o blant a phobl ifanc yn cael budd o fynychu. **Clwb Rygbi Caernarfon -** roedd adroddiad wedi ei dderbyn gan y clwb yn adrodd sut oedd pethau wedi bod yn mynd ers blwyddyn gyda chyfraniad y Cyngor Cymuned. Daeth cais ganddynt i ofyn am ei ariannu eto am 2025/26. Trafodwyd a theimlwyd y dylai trafodaeth gymryd lle gyda chynghorau eraill sydd â phlant yn mynychu Ysgol Dyffryn Nantlle hefyd i ofyn am gyfraniad er mwyn rhannu'r gost.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - adroddwyd bod archwiliad y cerrig beddi wedi cymeryd lle a bod yna gerrig sydd angen sylw. Cafwyd pris gan y contractwyr torri mynwentydd faint fuasai'r gost o osod polyn a strap ar y beddi sydd angen sylw. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn gyntaf i roi nodyn yn Lleu ac ar ein gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol i ddweud am yr archwiliad a'r bwriad. Yna ar ôl hyn y contractwyr i gario allan y gwaith a rhoi nodyn ar bob polyn y byddent yn osod i ddweud wrth deulu gysylltu â'r clerc am fanylion pellach os ydynt yn dymuno gwneud gwaith pellach ar y bedd. Cytunwyd yn unfrydol i bethau symud ymlaen fel hyn. Gofyn i'r clerc ofyn i'r archwilydd pob faint bydd angen archwiliad.

11. **Ceisiadau Cynllunio** - bu i Siân Dafydd adael y cyfarfod am y drafodaeth hon.

- *ymateb i wybodaeth am gais Treddafydd, Stryd Fawr, Penygroes* - yn dilyn cael gwybodaeth am beth a olygwyd gan ryddhau Amod 5 daeth y cynghorwyr i farn unfrydol na ddylid caniatáu bod hyn yn digwydd ac nad oes eisiau gadael iddynt ryddhau'r amod.

12. **Gohebiaeth** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. **Cronfa Gwynedd Ni -** mae arian ar gael i gynghorau cymunedol o'r gronfa a theimlwyd y dylid ymgeisio amdano. Trafodwyd a phenderfynwyd cynnal is-bwyllgor i drafod syniadau ayyb - cyfarfod i gymerud lle nos Iau, 26 Mehefin am 7 o'r gloch yn Ganolfan Talysarn. Pawb i edrych drwy'r dogfennau ymlaen llaw a cheisio meddwl am syniadau o beth ellir defnyddio'r arian ar ei gyfer.

13. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r isod.
*- John Cadmore – archwilio cerrig beddi = **£600.00***

14. **Unrhyw fater arall** - cynrychiolaeth o'r cyngor i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Ardal - trafodwyd a chytunodd Siân Dafydd a Nia Jones (clerc) i fynychu'r cyfarfodydd os ydynt yn medru.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 8 Gorffennaf 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________